

# ssia

Social Services Improvement Agency  
Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol

## Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant – Mae'n gallu Digwydd ac Yn Digwydd Yma

### Pecyn adnoddau ar gyfer Cynghorwyr yng Nghymru



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Rhagymadrodd

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi gweithio gyda'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol i gynhyrchu tri llawlyfr ar gyfer Cynghorwyr. Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant sydd dan sylw yn yr un yma a'r lleill yn trafod Rhianta Corfforaethol a Diogelu Oedolion. Daeth y tri phwnc hyn i'r amlwg fel y pynciau y byddai papurau briffio arnynt o'r budd mwyaf i Gynghorwyr.

Nid bwriad y llawlyfr hwn yw bod yn werslyfr am y gyfraith ac arferion mewn perthynas â Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, Plant sy'n Derbyn Gofal a Phobl Ifanc. Dim ond yn cynnig awgrymiadau defnyddiol ydyw ar sut y gall Cynghorwyr eu hunain gyflawni eu dyletswyddau tuag at blant a phobl ifanc.

Yn benodol, awgrymwn ymholiadau a fydd yn bwrw goleuni defnyddiol ar sut mae'ch Cyngor yn trin y plant a phobl ifanc hyn, a chmau y gallwch chi eu cymryd i wneud gwahaniaeth. Fel y cyfryw ei nod yw bod yn gryno ac yn bwrpasol. Yn aml ni fydd atebion diffiniadol i'r cwestiynau rydym ni'n eu hawgrymu. Yn hytrach, bydd yr ymholiadau hyn yn peri myfyrio, yn cynyddu dealltwriaeth, ac yn pwyntio at ystyriaethau i fynd ar eu trywydd. Bydd angen i chi a'ch swyddogion flaenoriaethu a rhaglennu'ch ymagwedd ar sail yr wybodaeth orau sydd gennych chi gan na fyddwch yn gallu mynd ar drywydd pob llinell ymholiad bosibl.

Mae gan bob Cynghorydd gyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu plant a phobl ifanc. Ochr yn ochr â'r GIG a'r Heddlu, mae gan gynghorau gyfrifoldeb allweddol i arwain wrth atal camdriniaeth ac esgeulustod plant ag anghenion gofal a chymorth a sicrhau bod ymateb da pan gaiff pryderon eu codi. Bydd yr ymatebion i atal camdriniaeth ac esgeulustod yn amrywio yn ôl yr amgylchiadau. Mewn rhai achosion efallai y bydd yn briodol ac yn angenrheidiol cymryd y plentyn i mewn i ofal a dyma lle mae cyfrifoldebau penodol rhianta corfforaethol yn dod i'r amlwg. Dro arall, yr ymateb diogelu fydd gweithio gyda'r plentyn neu'r person ifanc hwnnw a'i deulu a nodi pa gymorth mae ei angen er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel a bod eu llesiant yn cael ei hyrwyddo. Mae hyn yn cael ei wneud yn aml heb yr angen i fabwysiadu trefniadau gofal ffurfiol.

Math o Gamdriniaeth Rywiol Plant yw Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Mae'n gallu digwydd drwy ragfwriad a chynllunio, yn ogystal ag achub ar gyfle a'i chyflawni heb fymryn o barch nac empathi tuag at y dioddefwyr.

Mae'r negeseuon allweddol o ymchwiliadau diweddar i Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant wedi mynnu sylw difrifol pob Cynghorydd a phob gweithiwr proffesiynol ym maes amddiffyn plant ynghyd â'r sawl sy'n gyfrifol am graffu ar drefniadau diogelu. Rhaid trosi'r negeseuon hyn yn gamau positif er mwyn i ni ymdrin â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn fwy effeithiol.

Er ei bod yn bwysig cydnabod y gwaith da sy'n cael ei wneud yng Nghymru i fynd i'r afael â'r mater, mae angen i ni ofyn yn ogystal beth mwy all gael ei wneud i ddiogelu plant yn ein hardal leol. Mae hyn yn her arbennig yng nghyd-destun galwadau cynyddol ar Gynghorau a'n partneriaid am wasanaethau gofal cymdeithasol plant ac o fewn cyd-destun cyllidebau sylweddol is. Mae angen dealltwriaeth dda ar Aelodau o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant ac amrediad a lefel ymarfer lleol er mwyn bod mewn sefyllfa i graffu'n briodol ar drefniadau Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a sicrhau bod ymatebion priodol a chadarn ar waith. Mae hyn yn bwysig nid yn unig i Aelodau Arweiniol ar banelau craffu ond hefyd i bob cynghorydd wrth gyflawni ei gyfrifoldebau rianta corfforaethol.

Nid tasg i gynghorau lleol yn unig yw amddiffyn plant rhag Camfanteisio Rhywiol. Mae'n mynnu gwaith effeithiol rhwng asiantaethau sy'n gweithio i ddatblygu a gweithredu gweithgarwch wedi ei gyd-drefnu, gan ddefnyddio tystiolaeth a gwybodaeth leol, a gaiff ei rhannu'n briodol.

Mae'r pecyn adnoddau hwn wedi ei anelu at Aelodau Etholedig ar bob lefel ac mae wedi cael ei lunio i gynorthwyo Aelodau i ddeall cymhlethdod Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn well er mwyn iddynt ei herio'n briodol ac yn wybodus. Fe welwch hefyd, wrth ddarllen y ddogfen hon, ein bod wedi ei chroesgyfeirio â'n hadnodd ar Rianta Corfforaethol gan fod cyswllt anorfod rhwng y ddau fater.

Mae'r pecyn yn cynnig cipolwg ar rai o themâu ac ystyriaethau allweddol Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ac yn manteisio ar rai o'r negeseuon o adolygiadau ac ymchwiliadau diweddar. *Mae'n rhoi astudiaethau achos go iawn i Aelodau hefyd yn ogystal â mentrau arfer da a welir yng Nghymru.*

## **Y Cynghorydd Huw David**

Llefarydd WLGA

Plant a Phobl Ifanc

## Gofal y Cyngor dros Blant

Mae'n rhan o ddyletswydd cyngor i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plentyn (fel a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014), ond beth yw ystyr y term 'llesiant' wrth gwmpasu canlyniadau llesiant cyffredinol y Ddeddf? Mae'r canlynol yn ein helpu i ddeall yr agweddau allweddol hyn:

- Iechyd corfforol a meddyliol a llesiant emosiynol
- Datblygiad cymdeithasol ac ymddygiadol
- Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- Addysg, hyfforddiant a hamdden
- Teulu a chysylltiadau personol
- Cyfranogiad yn y gymuned leol
- Sicrhau hawliau
- Llesiant cymdeithasol ac economaidd, gan gynnwys peidio â byw mewn tloidi
- Byw mewn llefydd addas

Mae cynghorau yn chwarae rhan hanfodol, statudol wrth ddiogelu plant, gan gynnwys ymdrin â Chamfanteisio'n Rhywiol arnynt. Ni all hyn gael ei wneud ar ei ben ei hun ac mae angen cydweithrediad y gymuned ehangach a'n hasiantaethau partner. Mae Cynghorau'n gallu defnyddio eu cysylltiadau â'r heddlu, ysgolion, gweithwyr iechyd proffesiynol, a grwpiau cymunedol a ffydd i amlygu'r arwyddion a sicrhau bod pobl yn gwybod ble i droi os bydd ganddyn nhw bryderon. Mae dyletswydd cynghorydd tuag at blant sy'n dioddef camfanteisio rhywiol ar ba ffurf bynnag yn rhan o'i gyfrifoldeb diogelu.

Dylai fod gan bob Cynghorydd ddiddordeb gwybodus a brwd mewn sut mae'r Cyngor yn cefnogi plant a phobl ifanc gan y gall y grŵp yma fod yn un hawdd iawn ei niweidio. Mae'n gofyn perchnogaeth ac arweinyddiaeth ac, yn arbennig, gwaith partneriaeth ar lefel uwch ac mae hyn yn cynnwys **pob** aelod etholedig.

Hefyd mae gan gynghorau gyfrifoldebau rhianta corfforaethol dros y plant hynny sy'n derbyn gofal ac mae yna gyfrifoldebau clir y mae angen eu trosi'n gamau ymarferol. I blant a phobl ifanc sy'n dioddef camfanteisio rhywiol, p'un a ydyn nhw'n derbyn gofal gan y cyngor neu beidio, mae gan gynghorau ddyletswydd i sicrhau bod anghenion y plant hyn yn derbyn sylw priodol. Mae'r ymchwil

yn dangos i ni bod hunan-barch a'u sefyllfa fregus yn ystyriaethau anferth i'r plant hyn, beth bynnag eu hoedran.

### **Felly gan feddwl am Gamfanteisio Rhywiol ar Blant, beth fyddai rhiant da yn ei wneud?**

- bwydo, cysgodi, gwisgo, anwesu, meithrin
- synhwyro ac addasu i natur unigryw pob plentyn
- meithrin twf a datblygiad iach, cyfeillgarwch, a hyder mewn perthnasoedd
- amddiffyn, gosod ffiniau, ac unioni pan fydd pethau'n mynd o chwith
- cyfleu gwerthoedd ac egwyddorion positif am fyw
- sicrhau addysg dda a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau, doniau a diddordebau, gan annog cymryd risgiau pwyllog
- cefnogi'r plentyn sydd ar drothwy troi'n oedolyn ifanc i dderbyn cyfrifoldebau cynyddol a mwynhau rhyddid cynyddol.

Rhaid i'r Cyngor benodi a chyfarparu pobl i wneud y pethau hynny ar ei ran, gan sicrhau eu bod yn cael eu gwneud, a'u gwneud yn ddigon da.

Unwaith eto, unigolion a chyrff sy'n allweddol i gyflawni'r ymateb cywir i ddiodefswyr camfanteisio rhywiol ar blant ac yn anochel, mae cyfrifoldebau dros bob plentyn yn cael eu lledaenu ymhlith nifer o bobl. Felly mae yna'r potensial i gyfathrebu fethu, i bethau ddiflannu rhwng dwy stôl. Mae'n digwydd yn y teuluoedd gorau, ac mae'n rhaid bod hynny'n fwy byth o risg yma. A dyna pam mae gwaith tîm effeithiol, a gaiff ei gynllunio a'i gyd-drefnu, mor hanfodol, a gwiriadau a gwrthbwsau. Trafodwn y gwiriadau hyn ymhellach yn nes ymlaen yn yr adnodd hwn.

## Beth yw Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant?

Math o Gamdriniaeth Rywiol Plant ydyw sy'n gallu cael effaith hirdymor ddifrifol ar bob agwedd ar eu bywydau. Hefyd mae'n difetha bywydau teuluoedd a gofalwyr ac yn gallu arwain at chwalu teuluoedd.

Mae 'Protocol Cymru Gyfan ar gyfer Diogelu a Hyrwyddo Lles Plant sydd mewn perygl o gamdriniaeth drwy gamfanteisio rhywiol' (2) a ddiwygiwyd yn 2013 yn diffinio Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant fel:

*Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant gorfodi neu llywio plant a phobl ifanc i mewn i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol. Ffurf ar famdriniaeth rywiol ydyw sy'n cynnwys cyfnewid rhyw fath o daliad sy'n gallu cynnwys arian, ffonau symudol ac eitemau eraill, cyffuriau, alcohol, lle i aros, 'amddiffyniad' neu anwyldeb. Mae sefyllfa fregus y person ifanc a'r broses baratoi a ddefnyddir gan y cyflawnwyr yn golygu eu bod yn ddirym i gydnabod natur gamfanteisio perthnasoedd ac yn methu rhoi cytundeb gwybodus.*

Mae'r diffiniad hwn yn amlygu grym y sawl sy'n ei gyflawni dros y person ifanc maent yn camfanteisio arno. Caiff dioddefwyr eu llywio i gredu eu bod yn gwneud dewis gwybodus neu'n cytuno i fod yn rhan o berthnasoedd camdriniol. Mae angen i Aelodau ddeall nad yw 'cytundeb' ymddangosiadol i'r berthynas gan y dioddefwr yn dwyn unrhyw bwys; mae'n amlwg mae'r cyflawnwyr sy'n camfanteisio ar natur fregus plant a phobl ifanc sydd ar fai.

Gan hynny, mae modd crynhoi prif nodweddion camfanteisio'n rhywiol ar blant fel:

- llywio plant a phobl ifanc i mewn i weithgareddau rhywiol;
- mae gan y cyflawnwr rym dros y dioddefwr;
- yn aml bydd y cyflawnwr yn defnyddio trais a/neu fyglyu;
- mae'r cyflawnwr yn cyfnewid deunydd a/neu roddion emosiynol e.e. arian, anwyldeb, am ffafrau rhywiol;
- mae'r dioddefwr yn fregus mewn un neu fwy o ffyrdd;
- mae'r dioddefwr yn methu gweld bod perthynas amhriodol yn cael ei meithrin;
- mae'r dioddefwr efallai'n ymddangos fel pe bai'n cytuno i'r berthynas.

## Faint o broblem ydy Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yng Nghymru?

Mae'n anodd bod yn bendant am natur a graddfa wirioneddol Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yng Nghymru gan fod diffiniadau a chanfyddiadau wedi newid, ond gallwn ni fod yn sicr ei fod yn digwydd yng Nghymru fel y mae mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Nid yw'n gyfyngiedig i unrhyw ddaearyddiaeth arbennig, cefndir ethnig na chefnidir cymdeithasol. Yn ôl ymchwil gan Barnado's yng Nghymru dros y 10 mlynedd diwethaf, mae llawer mwy o achosion hysbys o blant a phobl ifanc sy'n dioddef camfanteisio rhywiol yn 2013/14 nag yn 2005. Hefyd mae mwy o blant a phobl ifanc yn cael eu nodi fel bod mewn perygl sylweddol o Gamfanteisio Rhywiol.

Gan mai mater cudd yn bennaf yw Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ac, yn hanesyddol, ychydig iawn o oroeswyr sy'n codi eu llais am eu camdriniaeth, mae'n anodd dweud graddfa wirioneddol y broblem. Yn aml ni fydd plant sydd wedi dioddef Camfanteisio Rhywiol yn sylweddoli natur gamdriniol eu perthynas â'r cyflawnwyr gan deimlo efallai eu bod nhw'n gyfrannog yn y gamdriniaeth am eu bod nhw'n credu eu bod yn cael eu gwobrwyo mewn rhyw fodd. Hefyd mae rhai'n anfodlon siarad am eu camdriniaeth drwy ofn cael eu troseddoli neu beidio â chael eu credu. Gwyddom ni o ymchwil fod bechgyn yn llai tebygol na merched o ddatgelu profiadau o Gamfanteisio Rhywiol sy'n ei gwneud yn anos ei ganfod.

Mae technolegau rhyngweithiol sy'n dod i'r amlwg yn cynnig cyfleoedd newydd i gyflawnwyr fagu perthynas amhriodol â phlant ar-lein gan ei gwneud yn anos byth mesur achosion yn gywir. Mae'n hawdd dylanwadu ar blant a'u llywio i feithrin perthnasoedd â chyflawnwyr sy'n ymbaratoi'n dda. Maen nhw'n defnyddio dulliau soffistigedig i lywio dioddefwyr i mewn i gymryd rhan mewn sgwrsio rhywiol amhriodol, gweithgarwch rhywiol dros we-gam neu bostio delweddau anwedus o'u hunain, yn aml heb unrhyw elw na thaliad cychwynnol. Mae'r perthnasoedd camfanteisiol hyn yn gallu rhedeg allan o reolaeth yn gyflym i bobl ifanc sydd, wedi cyfaddawdu eu hunain ar-lein, yn dioddef bygythiadau a blacmel yn aml. Hefyd mae perthnasoedd ar-lein yn gallu dwyn canlyniadau difrifol all-lein yn arbennig pan gaiff plant a phobl ifanc eu hannog i gwrdd wyneb yn wyneb â phobl maen nhw wedi cwrdd â nhw ar-lein yn wreiddiol.

*Daeth gwybodaeth i law gan yr Heddlu yn dweud bod mam wedi cysylltu â nhw am negeseuon y daeth hi ar eu traws ar ffôn TJ oddi wrth ddydd 29 mlwydd oed a oedd yn gymydog, a ddwedodd: 'I WILL RING U NOW BUT DON'T TELL ANYONE WHO IT IS LOL BUT IF U CAN ANSWER JUST CUT ME OFF XX' Adroddodd y fam ei bod wedi edrych ar ffôn TJ ac y bu nifer o alwadau o rif ffôn y cymydog yma, rhai yn hwyr y nos ond y mwyafrif yn ystod oriau'r noson. Ymhlith y negeseuon eraill a welwyd oedd, "TAKE THEM OFF AND WEAR A BELLY TOP AND STUFF...SO THAT YOU CAN SHOW SOME FLESH"*



## Beth mae angen i chi ei wybod am Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant?

- a) Mae Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn digwydd pan fydd cyflawnwyr yn debu ac yn llywio plant a phobl ifanc i mewn i sefyllfaoedd, cysylltiad a pherthnasoedd camfanteisiol.
- b) Bydd y plentyn efallai'n derbyn "rhoddion" fel bwyd, llety, alcohol, anwyldeb, yn gyfnewid am gyflawni gweithgareddau rhywiol. Mae hyn yn cuddio'r anghydbwysedd grym sydd o blaid y cyflawnwr yn fawr iawn dros y dioddefwr.
- c) Fel arfer mae'r anghydbwysedd grym hwn yn y berthynas yn codi drwy'r manteision y gall y cyflawnwr eu harfer o ran oedran, rhywedd, deall, cryfder corfforol ac adnoddau, sy'n gamfanteisiol ac yn afiach i ddiodefwyr.
- d) Mae bechgyn a dynion ifanc yn ogystal â merched a menywod ifanc yn dioddef camfanteisio. Mewn rhai achosion, menywod sy'n ei gyflawni ond fel arfer mae'n gysylltiedig â thrais dynion tuag at fenywod a merched.
- e) Ni ddylai plant sydd wedi dioddef cam-fanteisio gael eu hystyried yn droseddwyr ac mae'n rhaid cyfeirio'r prif ymateb o ran gorfodi'r gyfraith at amharu ar gyflawnwyr a'u dal nhw, nod y diodefwyr, i gyfrif.
- f) Nid yw Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn cael ei gyflawni gan oedolion yn unig. Gall pobl ifanc fod yn gyflawnwyr hefyd; a gall cyflawnwyr ifanc fod yn ddiodefwyr yn ogystal.
- g) Mae Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn digwydd mewn rhannau trefol a gwledig o Gymru ac mae diodefwyr a chyflawnwyr yn dod o amrediad o gefndiroedd ethnig a chymdeithasol.
- h) Mae'r ymchwil yn dweud wrthym ni fod rhai grwpiau o bobl ifanc yn arbennig o hawdd eu niweidio drwy gam-fanteisio'n rhywiol.

Mae'r rhain yn cynnwys plant a phobl ifanc sydd:

- wedi rhedeg i ffwrdd neu fynd ar goll oddi cartref o'r blaen;
- ag anghenion arbennig
- wedi ymeithrio rhag addysg
- mewn gofal neu'n ymadael â gofal
- yn blant a phobl ifanc sy'n ymfudwyr
- yn blant di-gwmni sy'n ceisio lloches
- sy'n cam-drin cyffuriau ac alcohol
- yn aelodau o gangiau

## Beth ddylai Cyngorau fod yn ei wneud?

### a) Gweithio'n agos gydag asiantaethau eraill

Cyngorau yw'r asiantaeth statudol bennaf o hyd ar gyfer diogelu plant ond mae'n nhw'n methu cyflawni hynny ar eu pen eu hun. Mae angen gweithio aml-asiantaeth a gyd-drefnir yn briodol ac ymgysylltu â chymunedau lleol. Dylai cydweithrediad o'r fath dargedu camau ataliol e.e. drwy leihau ymddygiad cymryd risg gan blant a phobl ifanc, yn ogystal â chefnogi dioddefwyr Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant.

### b) Rhannu gwybodaeth

Mae angen i gynghorau gytuno i rannu data am Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn gyson a sefydlu'r mecanweithiau a'r protocolau i wneud hynny. Mae rhannu data yn helpu i lywio ymatebion strategol a gweithredol i'r mater ar draws rhanbarthau.

### c) Arfer eu cyfrifoldebau fel rhieni corfforaethol

Mae profiadau diweddar cynghorau yn Lloegr fel Rotherham, Rhydychen, Sheffield a Derby yn amlygu'r rôl hanfodol sydd gan Arweinwyr Cyngor, Aelodau arweiniol Gwasanaethau Plant, pwyllgorau craffu a phob Aelod fel rhieni corfforaethol i godi cwestiynau a her mewn perthynas â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn eu hardal leol.

### d) Deall a chraffu'n effeithiol ar ymateb y Cyngor i Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant

Er mwyn gofyn y cwestiynau cywir i swyddogion a'r weithrediaeth, mae angen i Aelodau ddeall beth sy'n digwydd yn eu hardal nhw, bo dyn ymwybodol o gynlluniau strategol a gweithredol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant ac effaith y rhain ar wella ymwybyddiaeth ohono ac ymdrin â materion. I ddelio'n effeithiol â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant, mae angen dealltwriaeth holistig o'i gymhlethdodau. Gan fod hyn yn golygu gweithio gyda gwahanol asiantaethau, mae angen i ystyriaethau rheoli a goruchwyllo gael eu datrys gyda phartneriaid drwy rannu cynlluniau a fforymau. Dylai Aelodau fod yn gofyn i ba raddau mae hyn yn digwydd yn eu hardal leol nhw.

DS: Gallwch chi fod yn rhiant corfforaethol effeithiol heb orfod adnabod plant unigol sy'n dioddef neu wedi dioddef Camfanteisio Rhywiol. Fel arfer nid fydd cysylltiad personol ar sail unigol yn briodol, er bod plant a phobl ifanc, yn yr un modd ag unrhyw breswlydd lleol, yn cael dewis cysylltu neu ymweld â'u Cynghorwyr lleol. Mae bob amser yn hanfodol osgoi cyfaddawdu'ch hun

neu blentyn drwy gwrdd o dan amgylchiadau a allai gael eu camddehongli. Bydd o gymorth fel arfer cael oedolyn cyfrifol a dibynadwy gyda chi i hwyluso unrhyw gyfarfod.

## Beth yw'r cwestiynau allweddol mae angen i aelodau etholedig eu gofyn?

1. Pa ddata ydym ni'n ei gasglu?
2. Ai dyma'r data cywir?
3. Beth mae'n ei ddweud wrthym ni?

Mae'n bwysig bod data yn cael ei gofnodi fel rhan o'r drefn er mwyn:

- sicrhau bod cynlluniau strategol a gweithredol yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol a rhanbarthol o ran Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant;
- nodi tueddiadau lleol a mapio proffil Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant;
- ddatblygu proffiliau o ddioddefwyr a throreddwyr;
- nodi plant a phobl ifanc y bernir eu bod nhw mewn perygl;
- nodi manau problemus yn ddaearyddol a lleoliadau bregus;
- pennu, cyn belled â phosibl, graddfa camfanteisio ar blant ar-lein.

1. Oes gennym ni gynllun lleol effeithiol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant?
2. Sut mae hwnnw'n cysylltu â chynlluniau rhanbarthol a chenedlaethol?

- Mae angen i Aelodau fod yn sicr bod cynlluniau a strategaethau lleol a rhanbarthol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn gweithio'n effeithiol yn ymarferol a'u bod yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.
- Dylai Aelodau geisio sicrwydd bod cynlluniau rhanbarthol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Cenedlaethol Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant Llywodraeth Cymru a bod prosesau ar waith i sicrhau bod cynlluniau'n cael eu cyfathrebu'n glir ar draws pob asiantaeth.

## Rôl Byrddau Diogelu Plant

Mae gan Fyrddau Diogelu Plant yng Nghymru rôl allweddol i'w chwarae wrth gyd-drefnu a sicrhau effeithiolrwydd gwaith eu haelodau a rhaid iddyn nhw weithredu yn unol â deddfwriaeth ac arweiniad statudol Llywodraeth Cymru wrth gyflawni eu swyddogaethau. Dylai'r Byrddau sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i anghenion plant a phobl ifanc, a'u teuluoedd, sydd wedi dioddef neu a allai ddioddef camfanteisio rhywiol wrth gynllunio a chomisiynu gwasanaethau lleol. Dylai Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant gael ei drafod yng ngwaith cynllunio strategol a gweithredol ac ym mecanweithiau adrodd Byrddau. Hefyd dylai gael ei ystyried mewn asesiadau anghenion lleol a rhanbarthol a, lle bo'n fater arwyddocaol, dylai'r Byrddau sicrhau bod Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn cael ei weld fel blaenoriaeth strategol i'r Bwrdd.

1. Oes gan y bobl sydd angen gwybod am Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant y lefelau cywir o hyfforddiant, sgiliau ac adnoddau?
2. Ydy'r holl oedolion sy'n gweithio gyda phlant yn cael eu sgrinio'n ofalus cyn eu penodi ac ydy eu harfer yn cael ei oruchwylio?

- Dylai fod gan bob ymarferwr sy'n gweithio'n rheolaidd gyda phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl o Gamfanteisio Rhywiol ddealltwriaeth dda o'r mater, ei effaith ar ddioddefwyr, gwybod sut i adnabod yr arwyddion ac ymateb yn briodol. Hefyd mae angen i ymarferwyr ddeall ac ymateb i bobl ifanc sy'n cymryd risgiau o ran eu hymddygiad.
- Ac eithrio'r sawl sy'n gweithio gyda phlant e.e. athrawon, gweithwyr cymdeithasol, staff gofal ieuchyd, gweithwyr ieuencid, dylai pobl eraill sydd efallai'n dod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc gael eu hystyried am hyfforddiant e.e. swyddogion trwyddedu, staff gwestai a thafarnwyr.

1. I ba raddau mae'n teuluoedd a chymunedau'n ymwybodol o arwyddion a pheryglon Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant?
2. Ydyn nhw'n gwybod beth i'w wneud os byddan nhw'n amau bod Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn digwydd?

Yr allwedd i atal Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yw'r angen i godi ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc o'r risgiau sy'n gysylltiedig â pherthnasoedd camfanteisiol a gwneud iddyn nhw deimlo eu bod yn gallu rhoi gwybod am bryderon.

1. Beth ydyn ni'n ei wneud i atal plant a phobl ifanc rhag camfanteisio rhywiol?
2. Pa werthuso / monitro sy'n digwydd i sicrhau effeithiolrwydd ymagweddu?
3. Ydy'r Cyngor hwn wedi dysgu unrhyw wersi o fethiannau a llwyddiannau mewn mannau eraill?
4. Ydy pob honiad o gamdriniaeth yn cael ei ymchwilio'n drylwyr ac ydy camau priodol yn cael eu cymryd?
5. Pa mor dda ydy ein gwaith partneriaeth ni wrth drechu Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant?

- Ni all yr un asiantaeth ymdrin â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant ar ei phen ei hun. Mae angen gweithio'n effeithiol drwy bartneriaeth a thrwy dulliau cydweithredol aml-asiantaeth proffesiynol i fynd i'r afael â'r mater. Ymhlith y dulliau sydd ar waith yng Nghymru mae:
  - Cyflwyno fforymau aml-asiantaeth dan arweiniad ymarferwyr
  - Datblygu canolbwyntiau diogelu aml-asiantaeth (MASH) neu dimau aml-asiantaeth penodol llai o faint
  - Byrddau Diogelu Plant yn sefydlu is-grwpiau Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

1. Pa wybodaeth ydyn ni'n ei chasglu'n barod, e.e. drwy'r Panel Rhianta Corfforaethol ac ydy cysylltiadau'n cael eu gwneud â'r wybodaeth hon?
2. Ydyn ni'n effro i achosion o blant a phobl ifanc sy'n mynd ar goll?
3. Pa mor ddiogel ydy plant rydym ni'n gyfrifol amdany'n nhw'n teimlo, ac ydyn nhw'n meddwl y gallai mwy gael ei wneud i'w cadw nhw'n ddiogel?
4. Ydy camau effeithiol yn cael eu cymryd i ddeall pam aeth ein plant ar goll, pa risgiau roedden nhw'n eu hwynebu, a sut i'w atal rhag digwydd eto?
5. Sut ydym ni'n ymdrin â'r achosion hyn a'u hosgoi'n dod yn achosion o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant?

- Mae gan baneli craffu a rhianta corfforaethol cyngorau rôl hanfodol wrth ddal asiantaethau a phartneriaethau diogelu plant i gyfrif. Wrth wneud hynny, dylen nhw dderbyn adroddiadau rheolaidd am effeithiolrwydd gwaith lleol a rhanbarthol sy'n cael ei wneud i ymdrin â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant, a'u herio.